Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Adroddiad Swyddog Atebol ar Ddysgu o Faterion Cyfrifyddu 2021/22

ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR AR FATERION SY'N GYSYLLTIEDIG Â MATERION CYFRIFYDDU 2021/22, DYSGU A CHAMAU GWEITHREDU DILYNOL

CAROL SHILLABEER (PRIF WEITHREDWR)

YNGLŶN Â'R ADRODDIAD HWN

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Gorffennaf 2025. Mae'n seiliedig ar ddigwyddiadau'n ymwneud ag arfer cyfrifyddu yn ystod cyfnod cyfrifyddu 2021/22, sy'n rhagflaenu cyfnod yr awdur. Felly mae'r adroddiad cryno hwn yn goladiad o nifer o adroddiadau eraill a luniwyd gan drydydd partïon amrywiol. Mae'r adroddiad yn cyflwyno asesiad cryno o'r canfyddiadau'n ymwneud â materion cyfrifyddu, y cyd-destun, y pwyntiau dysgu a oedd yn deillio o'r cyfan a'r camau gweithredu a gymerwyd rhwng Mai 2023 a'r cyfnod presennol.

Mae safbwyntiau a phersbectifau gwahanol yn ymwneud â manwl-gywirdeb a chyflawnrwydd rhywfaint o'r gwaith a wnaed sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn. Serch hynny, mae'r awdur yn ceisio ymhelaethu ar yr elfennau craidd lle bo tystiolaeth ehangach sy'n ategu'r canfyddiadau.

Mae prif elfennau'r adroddiad yn canolbwyntio ar y dysgu a ddeilliodd o'r mater craidd ei hun ac yn bwysig y materion ehangach a'r elfennau a ddeilliodd o'r cyfan, ac felly dylid eu hystyried gyda'i gilydd. Mae crynodeb o gamau gweithredu a gymerwyd hyd yma ac sy'n parhau hefyd yn rhan hollbwysig o'r adroddiad hwn.

Defnyddiwyd gofal mewn perthynas â'r partïon dan sylw gyda mater arfer cyfrifyddu a materion cysylltiedig ac felly mae barn wedi'i rhoi ar lefel y manylion a ddarparwyd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod modd adrodd ar fater er budd y cyhoedd yn briodol gan hefyd sicrhau cydbwysedd o ran cyfrifoldeb y sefydliad tuag at y partïon dan sylw.

## CYFLWYNIAD

1. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cefndir, elfennau craidd a phroses rheoli materion cyfrifyddu mewn perthynas â chyfrifon ariannol 2021/22 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Pwrpas yr adroddiad yw rhoi trosolwg o'r materion craidd a'r materion ehangach ac elfennau a ddigwyddodd, ffocws ar y dysgu a'r camau gweithredu yr ymgymerwyd â nhw ac sy'n parhau o ganlyniad.

2. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn:

a) Materion a arweiniodd at amodi'r cyfrifon yn ystod 2021/22
b) Y materion craidd yn ymwneud ag arfer cyfrifyddu
c) Materion ehangach cysylltiedig gan gynnwys caffael a rheoli contractau, rheoli AD, llywodraethu gwybodaeth, diwylliant ac ymddygiadau
d) Crynodeb o'r Prif Ddysgu a Chamau Gweithredu a gymerwyd ac sy'n parhau

3. Er bod y mater craidd yn ymwneud ag arfer cyfrifyddu yn enwedig yn ystod 2021/22, mae'n amlwg o'r ystod o adolygiadau a gwaith arall, bod materion arwyddocaol ac ehangach yn bodoli. Dylai'r rhain gael eu hystyried ochr yn ochr â'r materion cyfrifyddu craidd fel bod modd cael dealltwriaeth gynhwysfawr.

## AMODI CYFRIFON 2021/22 GAN ARCHWILIO CYMRU

4. Daeth materion i’r amlwg yn ymwneud â chyfrifon 2021/22 trwy'r cyfrifon a'r prosesau archwilio yr ymgymerwyd â nhw yn ystod haf 2022. Fel rhan o’r archwiliad o gyfrifon 2021/22, cadarnhaodd Archwilio Cymru fod gwallau yn y cyfrifon wedi digwydd o ganlyniad i wariant penodol o £9.4m yn cael ei gyfrif yn

2021/22, pan ymddangosodd ei fod yn ymwneud â 2022/23. Yn ogystal, gwnaeth rhai aelodau o staff yr Adran Gyllid godi pryderon cyfrinachol yn ymwneud â phroses cofnodi trafodion.

5. Mae Archwilio Cymru yn cynnal archwiliadau ar sail cydymffurfiaeth (gan bwysleisio dibyniaeth ar systemau sydd yn eu lle). Fodd bynnag, o ganlyniad i'r gwaith archwilio'r cyfrifon, roedd Archwilio Cymru o'r farn bod angen iddynt symud at archwilio gwirioneddol, h.y. ni allent ddibynnu ar systemau ac felly roedd angen iddynt brofi pob darpariaeth ar gyfer y ddogfennaeth ffynhonnell, sy'n golygu bod angen i bob trafodyn o fewn perthnasedd (trothwy ariannol allweddol) gael eu profi. [1]

6. Ar ddechrau Gorffennaf 2022, penderfynodd y Bwrdd Iechyd atal unrhyw waith pellach gydag Archwilio Cymru er mwyn profi trafodion cyfrifyddu gan nad oedd capasiti digonol i ategu'r gwaith archwilio pellach sydd ei angen. Felly, nid oedd yn bosibl adolygu’r holl ddogfennaeth ffynhonnell ac felly cael sicrwydd ynghylch dilysrwydd y cyfrifon, gan nodi y byddai oedi yn cael effaith ar gwblhau cyfrifon iechyd cyfnerthedig Llywodraeth Cymru.

7. Bryd hynny roedd gwariant parhaus o fewn meysydd penodol o brofion archwilio bwriadedig o gyfanswm o £122m nad oedd wedi cael ei brofi. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys rhwymedigaethau o £73m (symiau a oedd yn ddyledus) a £49m o daliadau. Gallai'r eitemau hyn fod wedi cynnwys gwallau pellach. O ganlyniad i benderfyniad y Bwrdd Iechyd i atal cymorth ar gyfer profion pellach, ni allai Archwilio Cymru feintioli hyd a lled y gwallau. Felly nid oeddent yn gallu cael digon o sicrwydd nad oedd y cyfrifon wedi'u camddatgan gan werth mwy na throthwy perthnasedd y Bwrdd Iechyd o £20.3. Nid oedd gan Archwilio Cymru dim dewis ond amodi'r cyfrifon ar sail darlun cywir a theg.

8. Gwnaeth amodi cyfrifon ariannol 2021/22 (barn anffafriol ar ddarlun gwir a theg) gyda'r profion uchod yn parhau i fod heb eu cwblhau, arwain at anallu i wirio p'un a oedd y balansau agoriadol yn gywir ar gyfer y flwyddyn ganlynol, ac roedd amodi pellach yn 2022/23. Mae hyn oherwydd y ffaith na ellid dirnad p'un a oedd y balansau ar ddiwedd un flwyddyn ariannol yn 'wir ac yn deg' er mwyn i'r flwyddyn ganlynol agor gyda man cychwyn 'gwir a theg'. I gadarnhau, datganwyd bod y balansau ar ddiwedd 2022/23 yn gywir ac ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu ar ôl y cyfnod hwn ac mae'r cyfrifon wedi derbyn barn ddiamod (gwir a theg) yn rhydd o wallau sylweddol a 'thystysgrif iechyd lân', felly ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25, maent wedi cael eu hasesu gan Archwilio Cymru fel 'gwir a theg'.

**Y MATERION CRAIDD YN YMWNEUD AG ARFER CYFRIFYDDU**

9. Gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y Bwrdd Iechyd ar yr adeg (2022) gymryd camau cychwynnol i gomisiynu adolygiad 'gwersi a ddysgwyd' yn ymwneud â materion sy'n peri pryder o ran y cyfrifon er mwyn canfod dysgu o'r broses ddiwedd blwyddyn a oedd wedi arwain at amodi'r cyfrifon ac i roi newidiadau ar waith.

10. Yna, cafodd y broses gomisiynu ar gyfer yr adolygiad (y cyfeirir ato yn ddiweddarach fel Ymchwiliad) ei chynnal gan y Pwyllgor Archwilio, gydag Ysgrifennydd y Bwrdd (ar yr adeg), yn gweithredu fel prif gynghorydd llywodraethu i'r Pwyllgor. Gofynnwyd i Ernst a Young (EY) ymgymryd â'r gwaith. Brîff terfynol y gwaith oedd:

[1] Mae'r paragraff hwn wedi cael ei ddiweddaru yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan Archwilio Cymru ar ôl cyhoeddi Papurau'r Bwrdd. "*Mae Archwilio Cymru yn cynnal ei harchwiliadau gan ddefnyddio ymagwedd ar sail risg. Yn dilyn nodi'r canfyddiadau cychwynnol, cafodd cwmpas yr archwiliad ei ymestyn i fynd i'r afael â meysydd lle'r oedd canfyddiadau anffafriol wedi'u nodi. Pwrpas y gwaith ychwanegol hwn oedd casglu tystiolaeth archwilio ddigonol i ategu'r casgliad bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatgan sylweddol, ac roedd perthnaseedd wedi'i bennu ar £20.3 miliwn*".

*Rhoi cymorth cyfrifyddu fforensig i ymchwilio i'r ffeithiau a'r amgylchiadau a arweiniodd at bostio cofnodion cyfrifyddu yn anghywir yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2021-2022) a methiant i gael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gontractau penodol, ynghyd â'r esboniadau a roddwyd.*

Gwnaeth y gwaith hefyd fynd i'r afael â'r pwyntiau canlynol wrth iddynt godi o'r ymchwiliad:

- System a phrosesau i fynd i'r afael â llithriant yn erbyn sefyllfa alldro rhagamcanol
- System a phrosesau tua diwedd y flwyddyn, o gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf
- Cymeradwyo contractau a chynnig argymhellion i BIPBC roi prosesau gadarn ar waith ar gyfer tystysgrifau breinio
- Gweithdrefnau rheoli a sicrwydd ariannol
- Dysgu ac argymhellion ar gyfer rhoi arfer gorau ar waith, gan ystyried adroddiad rheolyddion ariannol
- Effeithiolrwydd arolygu a chraffu ariannol o lefel weithredol i lefel y Bwrdd - i fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn fel maent yn codi o'r gwaith ymchwilio.

11. Roedd y cyd-destun ar yr adeg yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd yn rhagamcanu ym mis Tachwedd 2021 danwariant o ran y cyfrif refeniw diwedd y flwyddyn o £10.2m yn ystod 2021/22 a'r camau gweithredu a gymerwyd i osgoi hyn. Yn benodol, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro lefel a defnydd o gyllid, gyda'r Bwrdd Iechyd yn nodi y byddai'n gwario'r gronfa. Fodd bynnag, wrth i ddiwedd y flwyddyn ddod yn nes, roedd tanwariant sylweddol yn bodoli ac felly roedd gwarged posibl yn erbyn y gyllideb a ddyrannwyd.

12. Mae crynodeb o'r prif elfennau ac felly'r materion craidd yn ymwneud ag arfer cyfrifyddu wedi'u hamlinellu isod:

a. Cafodd proses 'reoli' ei sefydlu a oedd yn canolbwyntio ar restr o wariant posibl gyda chyfanswm o filiynau i gael eu gwario cyn diwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys ystod o gontractau a oedd â'r bwriad o arwain at wariant yn ystod 'y flwyddyn bresennol', ond ni dderbyniwyd y nwyddau a'r gwasanaethau o fewn y flwyddyn honno ac ni ddylent fod wedi cael eu cyfrif yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn golygu bod cyfrifyddu am wariant wedi'i nodi yn ystod y flwyddyn 'anghywir'.

b. Gwnaeth gwaith allanol ddangos bod rhai o'r eitemau gwariant refeniw hyn i ddefnyddio'r gwarged yn 2021/22 naill ai'n eitemau gwariant refeniw 2022/23 (na *chawsant eu* haddasu yn y cyfrifon terfynol), neu fod rhai o'r rhain yn cynrychioli gwariant ar gontractau nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo iddynt neu eu bod yn eitemau 2021/22 y dylid fod wedi cael eu dynodi fel gwariant cyfalaf.

c. Yn achos un eitem o wariant (contract am wasanaethau), canfuwyd problemau nad oedd gwasanaethau wedi'u derbyn neu fod cytundeb cyfreithiol i ysgwyddo costau, a diffyg cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, manwl-gywirdeb a chyflawnrwydd gwybodaeth a roddwyd i'r Bwrdd a diwygio dogfennau cyn iddynt gael eu craffu gan Archwilio Cymru.

d. Mae'r risg a ganfuwyd mewn perthynas â'r arfer hwn yn golled ariannol sylweddol, o bosibl, h.y. gwariant cyhoeddus a wnaed am nwyddau/gwasanaethau nas derbyniwyd a cholli arian pe na bai'r nwyddau neu'r gwasanaethau yn cael eu derbyn yn y pen draw (er enghraifft, pe bai'r cyflenwr yn mynd i'r wal). Yn ogystal, pryderon ynghylch camliwio bwriadol (camliwio trafodion) a chamau gweithredu i guddio'r arferion hyn lle bydd mwy nag un swyddog o'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cydweithio i gamliwio gwir natur y trafodyn ariannol (cydgynllwynio).

e. Ni ddarganfuwyd unrhyw dystiolaeth fel rhan o unrhyw rai o'r ymchwiliadau neu'r adolygiadau a gynhaliwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi colli arian. Roedd y prif fater yr adroddwyd arno'n gyson gan Archwilio Cymru ac adolygiadau pellach yn canolbwyntio ar gyfrifyddu'n anghywir ar gyfer gwariant lle nad oedd

unrhyw ymrwymiad contract i fynd i'r costau hynny mewn perthynas â 2022/23, ac yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

13. Gwnaed cyfeiriad at Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru i ymchwilio iddynt yn 2022. Roedd natur gyfrinachol gwaith y gwasanaeth yn golygu bod yr Ymchwiliad yn hynod gyfyngedig wrth iddo gael ei gwblhau. Canlyniad ystyriaeth Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru oedd cyfeirio'n ôl at y sefydliad i'r ymchwiliad gael ei reoli trwy Bolisi Disgyblu proffesiynol a mewnol lle bo'n briodol.

14. Cafodd y mater ei ystyried gan Heddlu Gogledd Cymru hefyd. Yn dilyn eu gwaith, cafodd y Bwrdd Iechyd wybod na fyddai'r Heddlu yn cymryd unrhyw gamau pellach.

## MATERION EHANGACH A CHYSYLLTIEDIG

15. Mae nifer o faterion ehangach yn ymwneud â mater arfer cyfrifyddu. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg ar y rhain.

### Caffael a Rheoli Contractau

16. Ar ddechrau Mai 2023, gwnaeth y Prif Weithredwr Dros Dro newydd ddechrau yn ei swydd. Gwnaeth staff godi pryderon a oedd yn cynnwys y trefniadau caffael a rheoli contractau yr ymgymerodd y Bwrdd Iechyd â nhw yn ymwneud â'r ymchwiliad. Gwnaeth y Prif Weithredwr Dros Dro (Swyddog Atebol) gomisiynu Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Archwilio Mewnol) i gynnal adolygiad o'r broses gaffael a dulliau rheoli contractau o adeg gwneud penderfyniadau hyd nes cyflwyno'r adroddiad. Roedd cwmpas yr adolygiad yn gyfyngedig i'r dulliau caffael a rheoli contractau yr ymgymerodd y Bwrdd Iechyd â nhw.

17. Roedd y cwmpas yn canolbwyntio ar y canlynol:
a. Caffael - adolygu cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd; Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a phrosesau caffael.
b. Rheoli contractau - adolygu'r trefniadau contract sydd ar waith

18. Canfuwyd materion a oedd yn peri pryder a gwnaeth y Prif Weithredwr Dros Dro adrodd ar y rhain i Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru/Prif Weithredwr GIG Cymru yn unol â gofynion o dan 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'. Roedd y prif ganfyddiadau'n cynnwys:

a. Cafodd proses gomisiynu'r Ymchwiliad ei chynnal gan y Pwyllgor Archwilio, gydag Ysgrifennydd y Bwrdd (ar yr adeg), yn gweithredu fel prif gynghorydd llywodraethu i Gadeirydd y Pwyllgor. Ni fu unrhyw swyddogion gweithredol ynghlwm wrth hyn.

b. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd ddilyn y prosesau caffael priodol. Mae cymeradwyo contract ar gyfer ymgynghoriaeth allanol a oedd yn uwch na therfyn dirprwyedig y Prif Weithredwr fel y'i hamlinellir yn y Cynllun Dirprwyo (£500,000) yn fater a gadwyd yn ôl ar gyfer y Bwrdd llawn (Rheol Sefydlog Cadw Pŵer 40). Ni ddangoswyd unrhyw gofnod o benderfyniad y Bwrdd na Cham Gweithredu i'r Cadeirydd o ran dyfarnu'r contract ac roedd gwerth yr archeb brynu yn uwch na'r trothwy dirprwyedig. Mae Cyfarwyddyd Ariannol Sefydlog (SFI) 11.19 Dim Archeb Brynu, Dim Tâl, yn ei gwneud yn ofynnol codi archeb brynu wrth ddechrau prynu eitem (Medi 2022), ond cafodd archebion eu cwblhau a'u cymeradwyo'n 'ôl-weithredol' ym mis Chwefror 2023.

c. O ran rheoli contractau, nid oedd y llythyr ymgysylltu a'r datganiad gwaith yn cynnwys cyfanswm ffi daladwy. Er bod 311 awr wedi'u cyllidebu, cafodd 671 awr eu defnyddio hyd at fis Hydref 2022. Roedd yr oriau a ddefnyddiwyd o ganlyniad i geisiadau gan y Pwyllgor Archwilio i ymgymryd â rhagor o waith.

d. Gofynnwyd am yr adroddiad drafft gan y Bwrdd Iechyd a chafodd ei anfon at bartïon allweddol (Archwilio Cymru, Ysgrifennydd y Bwrdd dros dro (ar yr adeg) a'r Pwyllgor Archwilio). Gwnaeth yr adroddiad drafft amlinellu nad oedd pob parti wedi darparu sylwadau a oedd yn ffeithiol-gywir.

e. Gofynnwyd am gyngor cyfreithiol allanol er mwyn ymateb i'r pryderon a godwyd gan Uwch Swyddog yn y Bwrdd Iechyd yn ymwneud ag ymagwedd y Bwrdd Iechyd tuag at yr Ymchwiliad. Nid oedd caffael y cyngor hwnnw yn cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI) 11.19, Dim Archeb Brynu, Dim Tâl, gan ei fod wedi'i gwblhau'n ôl-weithredol.

**Materion sy'n gysylltiedig ag AD**

19. Mae nifer o brosesau'n gysylltiedig ag AD wedi bod ar y gweill yn effeithio ar staff gan gynnwys Polisi Parch a Datrys (lle mae staff yn codi pryderon ynghylch sut maent wedi cael eu trin gan y sefydliad) a Pholisi Disgyblu (lle caiff honiadau o gamwedd eu gwneud a lle bo gan staff yr hawl a'r cyfle i ymateb i'r honiadau hynny).

20. Ym mis Mehefin 2023, gwnaeth y Prif Weithredwr (Dros Dro, ar yr adeg) gomisiynu asesiad o ddulliau rheoli AD yn ymwneud â'r pryderon ynghylch arfer cyfrifyddu, gan nodi bod y cyngor AD yn ymwneud â'r mater hwn wedi'i gaffael yn allanol. Roedd prif ganfyddiadau'r asesiad yn cynnwys:

a. Roedd materion yn ymwneud â thryloywder yn y Bwrdd Iechyd gyda'r rhai dan sylw ynghylch natur y gwaith yr oedd EY yn ymgymryd ag ef. Rhannwyd pryderon gan reolwyr ar y lefelau uchaf a oedd yn gofyn i Gylch Gorchwyl yr Adolygiad gael ei rannu ymlaen llaw, ond adroddwyd na wnaeth y Pwyllgor Archwilio gytuno i'r cais hwn. Roedd staff wedi cael gwybod mai 'Dysgu Gwersi' fyddai'r ymagwedd a ddefnyddiwyd, ond daeth yn ymchwiliad yn ddiweddarach. Soniodd staff eu bod wedi cael gwybod nad oedd angen iddynt baratoi cyn yr adolygiad, ond roedd yr ymchwiliad yn gofyn am wybodaeth ac ymatebion manwl ac roedd staff wedi nodi nad oeddent wedi paratoi'n ddigonol ar eu cyfer.

b. Codwyd pryderon ynghylch rannu trawsgrifiadau cyfarfodydd yn brydlon am resymau cywirdeb ffeithiol yn ymwneud â'r ymchwiliad. Roedd yn ymddangos bod y broses gydlynu a chymorth 'cofleidiol' gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer staff fu ynghlwm wrth yr ymchwiliad yn ddiffygiol.

c. Cafodd y broses o atal staff dros dro o'r gweithlu ei hadolygu a dangoswyd, er yr ystyriwyd bod arferion yn mynd i 'wraidd' y polisi, y gellid fod wedi gwella'r broses. Gan gydnabod bod hon bob amser yn sefyllfa anodd, gallai'r trefniadau adolygu cyswllt ac atal staff o'r gwaith yn barhaus yn ystod y misoedd cyntaf yn benodol fod wedi bod yn fwy sensitif. Mae'n bwysig nodi cyd-destun y sefydliad ar yr adeg hon (newid sylweddol o ran arweinyddiaeth ar lefel y Bwrdd ac ar lefel Weithredol). Yn ogystal, roedd rhai elfennau penodol yn ymwneud ag atal aelod o staff ar y lefelau uchaf o'r gwaith dros dro na chawsant eu dilyn.

d. Mae prosesau Parch a Datrys a Disgyblu yn aml yn cael eu cynnal un ar ôl y llall, ac mae'r broses Parch a Datrys yn cael ei chynnal gyntaf. Felly bu oedi o ran symud ymlaen gyda materion yn unol â'r Polisi Disgyblu tra'r oedd camau'n cael eu cymryd i bennu unigolyn addas i ymgymryd â'r broses Parch a Datrys. Unwaith y dechreuodd y Prif Weithredwr (Dros Dro, ar yr adeg) yn ei swydd, penderfynwyd y byddai'r ddwy broses yn cael eu cwblhau ar yr un pryd gan fod cyswllt annatod rhwng y rhain. Roedd y ddwy broses yn hynod gymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig a chymerodd fwy o amser o lawer nag y disgwyliwyd.

21. Cafodd y prosesau'n ymwneud â Pharch a Datrys (pryderon a godwyd gan staff) eu rhoi ar waith yn llawn a'u profi yn unol â'r Polisi.

22. Mae canlyniadau'r broses ddisgyblu yn cynnwys Ymchwiliadau Disgyblu annibynnol a gynhaliwyd a'r canfyddiadau a brofwyd trwy gymhwyso proses y Polisi Disgyblu. Dilynwyd y polisi.

**Llywodraethu Gwybodaeth**

23. Cafodd y Bwrdd Iechyd wybod am ddatgeliad heb ei awdurdodi'n ymwneud ag adroddiad EY ganol mis Mai 2023. Roedd yr adroddiad wedi'i gyfyngu o ran ei gylchrediad a chafodd ei dderbyn gan grŵp bach o bobl yn y Bwrdd Iechyd, Archwilio Cymru a Gwasanaeth Atal Twyll GIG Cymru.

24. Mae deddfwriaeth a rheoleiddio'n ymwneud â diogelu data yn faes cymhleth a thechnegol. Fodd bynnag, mae'n amlwg na ofynnwyd am gydsyniad i ryddhau data'n ymwneud ag EY, y Bwrdd Iechyd a'r gwrthrychau a enwir yn yr adroddiad a bod hyn yn gyfystyr â thor diogelwch data. Cyfeiriodd y Bwrdd Iechyd y tor diogelwch data at y Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â safonau arfer a chynhaliwyd archwiliad.

25. Comisiynwyd adolygiad allanol yn ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Cofnodion Corfforaethol. Dangosodd y canfyddiadau fod yr ymagwedd tuag at lywodraethu gwybodaeth yn gadarn ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaed cyfres o argymhellion ar gyfer gwella. Mae trosolwg o'r rhain wedi'i gynnwys yn yr Adran Dysgu a Gweithredu.

**Arweinyddiaeth, Diwylliant a Llywodraethu**

26. Yn ystod y cyfnod hwn, daeth y Bwrdd Iechyd yn destun Asesiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd gan Archwilio Cymru. Adroddwyd ar hyn ym mis Chwefror 2023, ac yn fuan wedyn, gwnaeth Llywodraeth Cymru uwchgyfeirio'r sefydliad at ymyrraeth Lefel 5/Mesurau Arbennig. Dangosodd yr adroddiad 'lefel hynod bryderus o gamweithredu o fewn y Bwrdd ac Uwch Arweinyddiaeth' gan ddangos heriau sylweddol, gan gynnwys hyder yn yr arweinwyr i allu gwneud y gwaith sydd ei angen i wella. Soniwyd bod y diwylliant ac ymddygiadau yn y sefydliad ar lefel uwch wedi arwain at godi pryderon gan gynnwys o dan y llwybr Datgelu Gwarchodedig (Chwythu'r Chwiban). Gwnaeth yr adroddiad hwn ddisgrifio cyd-destun y sefydliad ar yr adeg a bryd hynny, daeth y problemau cyfrifyddu i'r amlwg am y tro cyntaf.

27. Gwnaeth adroddiad Archwilio Cymru sôn (pwyslais o'r adroddiad) ar nifer o brif elfennau gan gynnwys:

a. Cydberthnasau gwaith yn y Tîm Gweithredol a'r bwrdd ehangach: *Gwelsom holltau clir a dwfn yn y Tîm Gweithredol sy'n atal y tîm hwnnw rhag gweithio'n effeithiol. Mae pryderon ynghylch cyflymder y gwelliant ac ansawdd sicrwydd gan weithredwyr hefyd wedi arwain rhai Aelodau Annibynnol, yn achlysurol, at orfod holi rhai gweithredwyr yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus mewn ffordd heriol iawn. Mae hyn wedi effeithio'n negyddol ar gydberthnasau gwaith rhwng rhai Aelodau Annibynnol a rhywfaint o'r Tîm Gweithredol ac mae'n peryglu gallu'r bwrdd i weithio mewn ffordd gydlynol a chyfunol i fynd i'r afael yn effeithiol â'r heriau sylweddol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.*

b. Cynnal busnes mewn cyfarfodydd y bwrdd a phwyllgorau, ansawdd sicrwydd a chymorth ar gyfer trefniadau llywodraethu: *Er bod cyfarfodydd yn cael eu gweinyddu'n barhaus yn rhesymol, mae angen brys i fynd i'r afael â rhai pryderon hirsefydledig ynghylch trefniadau sicrwydd yng nghyfarfodydd y bwrdd a phwyllgorau, gan gynnwys sicrhau sefyllfa gytunedig ar lefel y risg y mae'r bwrdd yn fodlon ei goddef o fewn y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae angen hefyd i atgyfnerthu a sefydlogi trefniadau ynghylch Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd.*

c. Defnyddio gweithgareddau datblygu'r bwrdd i ategu diwylliant cadarnhaol a chydlynol yn y bwrdd: *Nid yw'r bwrdd wedi gallu defnyddio rhaglen gwaith datblygu'r bwrdd ddiweddaraf i'r eithaf er mwyn datblygu'r ymagwedd fwy integredig ac effeithiol tuag at waith y bwrdd sydd ei angen ar frys.*

d. Capasiti'r Tîm Gweithredol ac uwch reolwyr: *Mae corddi o fewn y Tîm Gweithredol wedi bod yn nodwedd gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i orddibynnu ar rolau dros dro ar gyfer swyddi allweddol yn y strwythur uwch reoli. Mae angen gweithredu ar frys i symud at fodel sy'n fwy sefydlog a chynaliadwy ar gyfer uwch staff, ac mae'n rhaid iddo gynnwys hwyluso cynlluniau i recriwtio Prif Weithredwr parhaol a sicrhau bod y trefniadau ôl-lenwi angenrheidiol ar waith i ategu'r trefniadau dros dro presennol.*

e. Trefniadau atebolrwydd perfformiad: *Mae angen gweithredu'n barhaus er mwyn sicrhau bod trefniadau atebolrwydd yn arwain at y gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau a threfniadau corfforaethol*

**CRYNODEB O DDYSGU A CHAMAU GWEITHREDU A GYMERWYD**

28. Mae ystod eang o ddysgu a chamau gweithredu'n deillio o gyd-destun bod y sefydliad wedi cael ei uwchgyfeirio i lefel arwyddocaol.

**Arweinyddiaeth, Diwylliant a Llywodraethu**

29. Mae nifer sylweddol o feysydd mewn perthynas â dysgu a chamau gweithredu a gymerwyd i wella arweinyddiaeth, diwylliant a llywodraethu yn y sefydliad.

30. Mewn perthynas ag arweinyddiaeth yn enwedig ar lefel y Bwrdd, mae Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd; Prif Weithredwr parhaol a nifer o rolau aelodau'r Tîm Gweithredol wedi cael eu recriwtio'n llwyddiannus.

31. Un o'r prif amcanion strategol a bennwyd fel rhan o'r Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig (2023/24) ac yna, y Cynllun Blynyddol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (2024 a 2025) fu 'Creu Bwrdd Effeithiol' ac yn fwyaf diweddar, 'Creu Sefydliad Effeithiol'. Mae hyn wedi cynnwys cyfres o gamau gweithredu arweiniol wedi'u harwain yn bennaf gan Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol newydd.

32. Gwnaeth y Bwrdd ymrwymo i ddatganiadau o fwriad strategol ym mis Medi 2023 yn ymwneud â diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu trugarog. Mae'r gwaith hwn wedi datblygu'n sylweddol gyda Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau dan arweiniad y Bwrdd, Rhaglen Newid Diwylliant, Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth a ffocws ar ymgysylltu â gweithwyr. Mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu Pwyllgor Pobl a Diwylliant penodol i ddatblygu cymorth a goruchwyliaeth o ran y gwaith hwn a gwaith cysylltiedig ehangach.

33. Mae'r Bwrdd wedi rhoi amser ac ymdrech i greu Rhaglen Datblygu (Tîm) Bwrdd. Yn y lle cyntaf, roedd hyn yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth drugarog, gyda chefnogaeth yr arbenigwr Michael West, ac mae hyn wedi dilyn cyfres strwythuredig o sesiynau rhaglen ddatblygu. Mae hunanasesiad o effeithiolrwydd y Bwrdd gan ddefnyddio ymagwedd strwythuredig wedi'i gynnal ac mae crynodeb wedi'i gyhoeddi.

34. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu ymagwedd benodol at ddidwylledd a thryloywder. Caiff Adroddiad Profiad Dinasyddion ei gyflwyno i'r Bwrdd yn rheolaidd, gan nodi ac yn mynd i'r afael â phrif elfennau adborth gan y bobl y mae'r Bwrdd yn eu gwasanaethu. Yn ogystal, caiff cyfarfodydd y Bwrdd eu cynnal wyneb yn wyneb ac yn gyhoeddus, ac mae rhaglen dreigl o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn caniatáu mwy o fynediad i gael adborth yn uniongyrchol gan gymunedau. Nododd Archwilio Cymru yn eu hadroddiad Asesu Strwythuredig: *Mae trefniadau'r Bwrdd ar gyfer clywed yn uniongyrchol gan gleifion yn gwella, ac mae'n*

*ehangu cyfleoedd i glywed yn uniongyrchol gan staff trwy ymweld â gwasanaethau a chlywed straeon staff yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.*

35. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo ystod o fframweithiau'n amlinellu ei uchelgais a'i ddisgwyliadau ar gyfer arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys Fframwaith Rheoli Risg, Fframwaith Perfformiad Integredig a Fframwaith Cynllunio Integredig. Mae'r rhain wedi ategu camau gwella a galluoedd y sefydliad. Bydd y rhain yn parhau i gael eu mireinio wrth i'r ymagwedd gwella sefydliadol ddatblygu ymhellach. Yn ei adroddiad Asesu Strwythuredig (2023/24), canfu Archwilio Cymru fod y Bwrdd Iechyd wedi: *diwygio ei fframweithiau risg a pherfformiad a'i fod yn datblygu system rheoli ansawdd newydd. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i ymgorffori'r trefniadau newydd hyn, er mwyn datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ymhellach, atgyfnerthu'r broses o reoli cwynion a digwyddiadau ac i atgyfnerthu prosesau ar gyfer olrhain argymhellion archwilio.* Mae'r gwaith pellach hwn wedi symud ymlaen ac mae tystiolaeth o sefyllfa sydd wedi gwella'n sylweddol.

36. Mae'r Bwrdd wedi blaenoriaethu adolygu a diwygio Model Gweithredu'r sefydliad ac mae wedi sefydlu Rhaglen Newid Mawr 'Sylfeini'r Dyfodol'. Bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd y sefydliad o ran diwallu anghenion iechyd poblogaeth Gogledd Cymru.

37. Mae Archwilio Cymru wedi cynnal asesiad dilynol o Effeithiolrwydd y Bwrdd ac adroddodd ar y canfyddiadau ym mis Chwefror 2024. Yn gryno:

> *Ar y cyfan, gwelsom yn dilyn cyfnod o darfu sylweddol a chorddi yn ystod 2023, fod y bwrdd bellach mewn sefyllfa sy'n fwy sefydlog o lawer. Mae Prif Weithredwr parhaol newydd yn ei swydd, nid yw'r camweithredu yn y bwrdd a ddisgrifiwyd yn ein hadroddiad blaenorol yn amlwg bellach ac mae cydberthnasau gwaith ymysg uwch arweinwyr yn fwy positif yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae rhai heriau sylfaenol yn parhau yng nghyd-destun sefydliad sy'n destun mesurau arbennig. Mae angen i benodiadau parhaol i'r bwrdd gael eu cwblhau cyn gyflymed â phosibl er mwyn sicrhau bod capasiti llawn yn y bwrdd. Mae'n rhaid i waith barhau i greu Tîm Gweithredol unedig ac effeithiol, er mwyn datrys y materion personél parhaus yn yr Adran Gyllid, ac i atgyfnerthu trefniadau arwain llywodraethu corfforaethol yn y sefydliad. Mae angen i'r gweithgareddau hyn gael eu hategu gan gynnydd parhaus gyda rhaglen datblygu'r bwrdd sy'n creu bwrdd cydlynedig ac unedig sy'n ategu diwylliant sefydliadol positif trwy osod y "cywair cywir o'r brig i lawr".*
>
> Gwaith Dilynol Effeithiolrwydd Bwrdd Archwilio Cymru, Chwefror 2024

38. Ymgymerodd Archwilio Cymru ag 'Asesiad Strwythuredig 2023' er mwyn adolygu trefniadau corfforaethol o ran sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus. Daeth yr asesiad cyffredinol i'r casgliad:

> *'yn dilyn heriau arwyddocaol yn 2023, mae'r Bwrdd Iechyd yn fwy sefydlog ac yn y broses o atgyfnerthu trefniadau sicrwydd corfforaethol allweddol, ond mae arno angen strategaeth glir i'w alluogi i ddatblygu modelau gwasanaeth sy'n gynaliadwy ar lefel ariannol sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd da er mwyn delio â'r galw am ofal iechyd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae angen hefyd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod sicrwydd digonol ar effaith y camau gweithredu a gymerir i gyflawni ei gynlluniau, er mwyn lliniaru risg, gwella perfformiad gwasanaeth a mynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad'.*
>
> Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2023 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024)

**Llywodraethu Ariannol**

39. Datblygwyd Cynllun Gweithredu Cyllid ym mis Mehefin 2023 mewn ymateb i'r uwchgyfeirio at Lefel 5/Mesurau Arbennig ac yn cynnwys y meysydd dysgu a ddaeth i'r amlwg bryd hynny. Cafodd y cynllun ei ddiweddaru ar sail dreigl a bu'n destun dulliau craffu ac adolygu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Adroddwyd ar gynnydd y cynllun trwy'r Pwyllgor priodol, hyd at y Bwrdd fel rhan o adrodd ar Fesurau Arbennig.

40. Roedd y Cynllun ei hun yn canolbwyntio ar nifer o ddeilliannau allweddol gan gynnwys:

a. Arbedion Ariannol: roedd y camau gweithredu'n cynnwys cyflwyno cynllun arbedion effeithlon cytunedig er mwyn lleihau'r diffyg ariannol.

b. Cyfleoedd Ariannol a Gwerth yn y Dyfodol: roedd y camau gweithredu'n cynnwys asesu cyfleoedd ariannol posibl ar gyfer 2024/2025 a 2025/2026 ac i ddatblygu cyfraniad gofal iechyd yn seiliedig ar werth. Mae'r bwrdd iechyd wedi datblygu ei ymagwedd ymhellach tuag at y defnydd gorau o adnoddau trwy ganolbwyntio ar ofal iechyd yn seiliedig ar werth ac ar gyfer 2025/26, mae wedi sefydlu Rhaglen Newid Mawr Gwerth a Chynaliadwyedd.

c. Adolygiad Caffael a Rheoli Contractau: Cafodd Adolygiad ei gomisiynu gyda chytundeb Llywodraeth Cymru a chafodd hwn ei gynnal yn ystod 2023/24 gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae manylion am y canfyddiadau a'r prif gamau gweithredu wedi'u hamlinellu ymhellach yn yr adroddiad hwn.

d. Tîm a Chapasiti Cyllid: Un ffocws o'r cynllun gweithredu yn ystod 2023 oedd sefydlogi'r tîm cyllid ac i ddatblygu capasiti. Er bod hyn wedi arwain at gymorth ychwanegol dros dro, mae'r tîm cyllid wedi'i sefydlu erbyn hyn ar sylfaen fwy cynaliadwy. Mae hyn wedi caniatáu gwneud cynnydd sylweddol o ran creu tîm sy'n gallu datblygu'r ymagweddau at strategaeth a rheolaeth ariannol sydd eu hangen ar y sefydliad yn y tymor canolig a'r tymor hirach. Caiff adolygiad pellach ei gynnal fel rhan o Raglen Sylfeini'r Dyfodol.

e. Llywodraethu Ariannol: Ffocws craidd ar gyfer y gwelliant oedd rhoi Cynllun Gweithredu Amgylcheddol Rheoli Ariannol penodol ac wedi'i dargedu ar waith. Roedd hyn yn cynnwys adolygu a diwygio'r Cynllun Cadw a Dirprwyo (SORD), ei gydrannau (yn lleol ac ar draws y bwrdd iechyd) a'i roi ar waith gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer rheolwyr. Cafodd y mecanweithiau arolygu ac atebolrwydd perfformiad eu hatgyfnerthu ac wedi hynny, cawsant eu cynnwys fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad Integredig. Cafodd system monitro ac adrodd ar gyfer cydymffurfiaeth ei datblygu ac mae bellach yn rhan o adrodd rheolaidd wrth y Pwyllgor Archwilio.

41. Mae Archwilio Cymru yn cynnal yr adolygiad blynyddol o gyfrifon er mwyn rhoi ISA 260 sy'n cofnodi eu canfyddiadau ynghylch yr archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ac i'r Archwilydd Cyffredinol roi Adroddiad Archwilio'r Cyfrifon. Ar gyfer blynyddoedd 2023/24 a 2024/25, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn wir a theg ddiamod ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn dangos bod yr ymagwedd at gyfrifyddu wedi cael ei asesu i fod yn 'ddilychwin'.

42. Mae gwaith datblygu pellach wedi cael ei wneud mewn perthynas ag ymagwedd y bwrdd iechyd tuag at y cyfrifon ac ar gyfer y flwydddyn 2024/25, mae 'offeryn mapio' newydd wedi cael ei ddatblygu sy'n olrhain pob cofnod yn y datganiadau ariannol i gofnodion ffynhonnell y gwariant. Y bwrdd iechyd yw'r sefydliad cyntaf yng Nghymru i ddatblygu'r system hon ac i'w rhoi ar waith, gan roi tryloywder llawn o'r datganiadau ariannol i gyfriflyfrau'r ffynhonnell.

43. Gwnaeth Archwilio Cymru roi eu hadroddiad ar gyfer y cyfnod 2023/24 gan grynhoi eu barn ar gynnydd oherwydd:

*'Gwnaethom adrodd yn ystod y flwyddyn flaenorol 2022-23 na chafodd y datganiadau ariannol eu cyflwyno i'w harchwilio yn unol â'r safon ddisgwyliedig. Ar gyfer 2023-24, roedd gwelliant sylweddol o ran ansawdd y datganiad ariannol drafft a gyflwynwyd i'w archwilio. Caiff hyn ei ddangos gan y nifer gymharol fach o gamddatganiadau a gafodd eu nodi a'u diwygio a'r ffaith nad oes unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu'n deillio o'r archwiliad.*

Adroddiad Archwilio Cyfrifon 2023/24 Archwilio Cymru

44. Mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig (2023 - a gyhoeddwyd yn 2024) yn ymwneud ag elfennau ar reoli adnoddau, roedd barn Archwilio Cymru yn cynnwys:

*'Mae angen amlwg am strategaeth ariannol i danategu cynllunio yn y tymor canolig a'r tymor hir sy'n ystyried twf yn y galw am ofal iechyd yn llawn ac sy'n ategu modelau gwasanaeth clinigol cynaliadwy, gan ddileu'r diffyg isorweddol hefyd. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i leihau ei ddiffyg i swm sy'n llai na'r hyn a glustnodwyd ac yn agos i gyfanswm rheoli Llywodraeth Cymru, mae angen cydnabod hefyd bod hyn wedi'i gyflawni trwy ddulliau rheoli llym a chanolog. Wrth i berfformiad a disgyblaeth ariannol ddatblygu, bydd hyn yn arwain at lefel gynyddol o annibyniaeth, yn cynnwys atebolrwydd clir.'*

Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2023 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024)

**Llywodraethu Gwybodaeth**

45. Cynhaliwyd adolygiad allanol yn 2023 yn archwilio ymagwedd y sefydliad tuag at lywodraethu gwybodaeth a rheoli cofnodion corfforaethol yn dilyn y tramgwydd o ran llywodraethu gwybodaeth. Gwnaeth yr adroddiad ddangos meysydd cryf ac amlinelloedd feysydd ar gyfer gwella hefyd. Mae'r canfyddiadau a'r camau gweithredu wedi'u hamlinellu isod:

a. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn glir lle mae atebolrwydd yn berthnasol, bod rheoli cofnodion yn cael ei gydnabod fel swyddogaeth gorfforaethol graidd a bod adnoddau priodol yn cael eu darparu. Mae camau gweithredu wedi cael eu cymryd i leoli'r broses strategol o arwain rheoli cofnodion i'r Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth, a hwnnw hefyd yw'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO). Mae dau o blith y tri argymhelliad yn ymwneud â'r maes hwn wedi cael eu cwblhau, mae'r maes terfynol wedi'i gwblhau'n rhannol yn cynnwys ystyried adnoddau ymhellach i ddatblygu gweithredu ehangach.

b. Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu fframwaith cadarn ac effeithiol ar gyfer Rheoli Cofnodion, gan gynnwys diweddaru polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad yn rheolaidd. Mae camau wedi cael eu cymryd i ddatblygu'r agwedd hon a nodwyd mai dim ond un maes a oedd wedi'i gwblhau'n rhannol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno system dosbarthu cofnodion ffurfiol sy'n gofyn am waith pellach.

c. Bod trefniadau presennol y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol, yn gyfredol, ond eu bod hefyd yn adlewyrchu newid sefydliadol diweddar ac arfer da o ran Llywodraethu Gwybodaeth. Mae camau wedi'u cymryd i adolygu a diwygio trefniadau ac adrodd rheolaidd ar lifau gwybodaeth gan y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth, trwy Bwyllgor Gweithredol i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth.

d. Bod y trefniadau presennol o ran hyfforddiant ac ymwybyddiaeth Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Gwybodaeth yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn cael eu darparu'n rheolaidd a'u bod yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae camau gweithredu wedi'u cymryd ar gyfer yr argymhelliad hwn ac mae'r holl feysydd wedi cael eu cwblhau erbyn hyn. Caiff gwybodaeth reolaidd am hyfforddiant ei chyflwyno fel rhan o'r set ddata graidd a chaiff camau eu cymryd i fynd i'r afael â chydymffurfiaeth ar lefel is fel bo'n briodol.

e. Bod adolygiad o brosesau cynefino a dechreuwyr/ymadawyr yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod trefniadau digonol ar waith fel bod yr holl staff yn cael gwybod am eu cyfrifoldebau o ran Llywodraethu Gwybodaeth/Rheoli Cofnodion ac fel bod diogelwch a chyfanrwydd asedau gwybodaeth AD yn parhau i fod mor ddiogel â phosibl. Mae'r holl gamau gweithredu'n ymwneud â'r argymhelliad hwn wedi cael eu cynnal a'u cwblhau, gan gynnwys rhestrau gwirio ar gyfer rheolwyr ac ymadawyr.

f. Oherwydd newidiadau sefydliadol diweddar, dylai trefniadau ar gyfer Rheoli Asedau Gwybodaeth gael eu hasesu er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol, bod Perchnogion Asedau Gwybodaeth (IAO) yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a bod staff yn ymwybodol o bwy yw'r IAOs.

g. Er mwyn gwella diogelwch gwybodaeth a lleihau'r risg o ddatgeliadau heb awdurdod gan y Bwrdd Iechyd, ystyried rhoi mesurau/rheolyddion diogelwch ychwanegol ar waith

h. Bod y Prosesau Rheoli Digwyddiadau'n cael eu hatgyfnerthu i ddarparu adrodd, monitro a chraffu mwy cadarn o ran Digwyddiadau Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Gwybodaeth

**Caffael a Rheoli Contractau**

46. Cafodd yr Adolygiad o Gaffael a Rheoli Contractau ei gwblhau ym mis Hydref 2023, ac mae'r prif ganfyddiadau a'r camau gweithredu dilynol a ganlyn wedi'u cymryd:

a. Diffyg ymagwedd glir yn y bwrdd iechyd o ran polisi, gweithdrefn neu arweiniad i staff mewn perthynas â chaffael. Roedd gweithdrefnau cyllid cyffredinol wedi dyddio ac roedd angen eu hadolygu. Mae camau gweithredu wedi'u cymryd yn unol â'r gwaith ar bolisïau'r bwrdd iechyd. Cafodd adolygiad llawn o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol ei gynnal a'i ystyried gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2023. Mae diweddariadau pellach wedi symud ymlaen wedi hynny.

b. Roedd lle i wella'r broses adrodd ac uwchgyfeirio yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau y ceir sicrwydd digonol gan NWSPP, a bod y Bwrdd Iechyd yn dod i wybod yn fuan am anawsterau yn ymwneud â chaffael. Mae camau wedi cael eu cymryd i ddatblygu mecanweithiau adrodd ac uwchgyfeirio, yn enwedig trwy'r Pwyllgorau Archwilio. Mae adroddiadau ar gydymffurfiaeth a thramgwydd, gwybodaeth am hepgoriadau tendr sengl ac uwchgyfeiriadau allweddol eraill bellach yn rhan o fecanwaith adrodd craidd.

c. Fe wnaeth adolygiad manwl o gontractau amlygu rhywfaint o ddiffyg cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd ynghylch cymeradwyo a llofnodi contractau yn briodol. Nid oedd unrhyw restr benodol o gontractau ledled y Bwrdd Iechyd, ac mae'r wybodaeth a geir gan wasanaethau yn anghyflawn ac anghyson. Nid oedd blaengynllun gwaith ar gyfer y contractau a reolir yn uniongyrchol gan staff y Bwrdd Iechyd ac nad oeddent wedi'u cofnodi ar y gofrestr eCM yn ei le. Mae camau wedi'u cymryd mewn partneriaeth â Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru mewn perthynas â chofrestrau contract. Er bod y maes hwn wedi gwella, mae rhagor o waith i'w wneud yn y maes hwn gan fod contractau'n cael eu dal ar draws y sefydliad mewn adrannau penodol. Mae hwn yn gam a fydd yn parhau i gael ei ddatblygu.

d. Roedd dulliau rheoli contractau yn anghyson yn y Bwrdd iechyd, ac ni ddarperir unrhyw gyfarwyddiadau na chanllawiau i'r staff sy'n gyfrifol am reoli contractau. Mae camau wedi'u cymryd er mwyn sicrhau bod rheolwyr ar draws y bwrdd iechyd wedi cael hyfforddiant llawn o ran safonau'r arfer caffael sydd ei angen. Yn ogystal, mae Llawlyfr Rheolwyr Cyllidebau wedi cael ei ddatblygu ymhellach a'i rannu'n eang, gan roi arweiniad sy'n manylu ar y prosesau y dylai pob rheolwr cyllideb ymgymryd â nhw.

e. Nid yw'r system eWaiver, a ddefnyddir i ofyn am a chymeradwyo hepgoriadau ar gyfer tendrau sengl a dyfynbrisiau yn sicrhau cydymffurfiaeth a'r SFIs, oherwydd nid oedd unrhyw gyd-ddibyniaeth rhwng y system honno a'r system e-Financials, ac nid oedd angen cymeradwyaeth ar y lefel briodol yn achos hepgoriadau sy'n werth mwy na £25,000. Mae dadansoddi data eWaiver wedi dangos bod y Bwrdd Iechyd yn eithriad sylweddol o ran nifer a gwerth yr hepgoriadau a gyflwynir, ac mae hynny'n amlygu pryderon ynghylch gwerth am arian a chystadleuaeth yn y farchnad. Mae camau sylweddol wedi cael eu cymryd i ddeall dichonoldeb cysylltu'r systemau. O ganlyniad, mae camau wedi'u cymryd i wella'r mecanwaith rheoli yn ymwneud â hepgoriadau tendr sengl. Ymgymerir ag adrodd rheolaidd ar natur a chyfaint erbyn hyn er mwyn deall tueddiadau ac i gadarnhau camau gweithredu o ganlyniad. Mae'r ffocws hwn wedi arwain at leihad sylweddol yn nifer yr hepgoriadau tendr sengl.

f. Ni roddwyd unrhyw hyfforddiant caffael ar gyfer Gweithredwyr a'r holl staff sy'n ymwneud â chaffael, i sicrhau eu bod yn deall cyfrifoldebau a gofynion yn iawn. Mae rhaglen hyfforddiant sylweddol wedi cael ei rhoi ar waith erbyn hyn ac mae rhyw 500 o reolwyr wedi cymryd rhan. Caiff rowndiau hyfforddiant pellach eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod hyfforddiant gloywi a diweddaru'n cael ei gynnal. Mae Llawlyfr y Rheolwyr Cyllidebau hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol.

**Prosesau AD**

47. Roedd cyd-destun y bwrdd iechyd yn ystod y cyfnod pan ddaeth y materion cyfrifyddu i'r amlwg yn gymhleth. Roedd y newidiadau i arweinyddiaeth ar lefel weithredol ac ansefydlogrwydd yn y sefydliad wedi ychwanegu at hyn. Er bod hynny'n wir, mae hefyd yn ffaith bod y materion mewn perthynas â phrosesau AD yn hynod anarferol ac yn hynod gymhleth, ac roedd nifer o brosesau'n cael eu cynnal ar yr un pryd.

48. Er ei bod yn amlwg bod trafodaethau sylweddol yn y cyfryngau a thrafodaethau gwleidyddol ar adegau yn y sefyllfa hon, mae bob amser wedi bod yn hanfodol cynnal tegwch a gwrthrychedd yn unol ag Egwyddorion Salmon. Mae hyn wedi golygu bod angen ystyried pob cam o'r prosesau AD yn ofalus. Yn anffodus, cafodd hyd yr amser y cymerodd y prosesau hyn ei ymestyn, ymhellach y tu hwnt i'r hyn sy'n digwydd mewn amgylchiadau arferol. Bydd hyn yn parhau i fod yn ffocws yn y dyfodol yn cynnwys gwell adrodd wrth y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar derfynau amser yn ymarferol ar gyfer y prosesau hyn.

49. Ar nodyn ehangach, mae'r bwrdd iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr Undebau Llafur ar atal niwed i weithwyr. Mae hyn yn rhan o ymdrech genedlaethol i reoli'r ymagweddau hyn yn well. Yn anochel, bydd gwersi i'w dysgu o ystod eang o enghreifftiau a fydd yn gwella arfer a phrofiad y staff. Bydd gwerthoedd sefydliadol didwylledd, trugaredd a pharch yn sail i'r ymagweddau at faterion AD. Gan fod y Pwyllgor Pobl a Diwylliant bellach yn derbyn straeon staff ac adroddiadau ymgysylltu a phrofiad gweithwyr yn rheolaidd, bydd ffocws a thryloywder cryfach ar y materion hyn yn parhau.

**CASGLIAD**

50. Mae'r adroddiad hwn wedi amlinellu trosolwg o'r materion a'r elfennau craidd ac ehangach a ddigwyddodd yn ymwneud â'r mater cyfrifyddu yn 2021/22. Mae'n darparu cyd-destun pwysig yn ymwneud â sefydliad sy'n wyneb anhawster a gafodd ei uwchgyfeirio'n ddiweddarach at lefel Mesurau Arbennig gan Lywodraeth Cymru. Mae adolygiadau ac ymchwiliadau pwysig wedi cael eu cynnal yn ymwneud â'r mater craidd a'r materion cysylltiedig ehangach a bu gwersi sylweddol yr oedd angen i'r bwrdd iechyd eu dysgu. Mae'r gwaith clir a phenodol ar welliannau wedi cael ei amlinellu yn yr adroddiad. Mae'r didwylledd a'r tryloywder y mae'r Bwrdd yn ymgymryd â'i waith gyda nhw'n ffactor allweddol o ran y gwelliant hwnnw ac o ran gwella ffydd a hyder pobl Gogledd Cymru ac eraill yn y bwrdd iechyd. Dyma'r rheswm dros gyhoeddi'r

adroddiad cryno hwn; gan roi cyfle i adrodd ar faterion sydd er lles y cyhoedd ac i reoli cyfrifoldebau sefydliadol tuag at unigolion a phartïon allweddol eraill.

51. Er bod y bwrdd iechyd ei hun yn gallu dangos bod newid a gwelliant sylweddol wedi digwydd; mae'n hynod werthfawr cael cyrff proffesiynol allanol yn asesu ac yn adrodd ar ganfyddiadau eu hasesiad o'r bwrdd iechyd. Mae gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru fel archwilwyr allanol felly'n rhoi tystiolaeth ychwanegol bod y bwrdd iechyd wir wedi rhoi camau gweithredu amlwg ar waith a'i fod wedi gwneud newid sylweddol o ganlyniad i ddigwyddiadau a gododd yn 2021/22.

52. Ar nodyn terfynol, mae llawer o bobl wedi cael eu heffeithio gan y mater cyfrifyddu a'r materion ehangach yn hyn o beth. Fel sefydliad y mae'n rhaid iddo ganolbwyntio ar bobl, mae wedi bod yn bwysig cydnabod gymaint â phosibl yn yr adroddiad hwn yr effaith y mae'r amgylchiadau hyn wedi'i chael. Y gobaith yw y bydd cyhoeddi'r adroddiad hwn o gymorth o ran symud ymlaen i roi sicrwydd.